Datblygu Cynllun Strategol ar gyfer

Cynyddu Incwm

Briff

Paratowyd gan

Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Mai 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Soar

1.0

Cefndir

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn ganolbwynt i ddatblygiad y Gymraeg trwy weithrediad Canolfan Soar, Canolfan Gymraeg yng Nghanol y dref. Mae'r Canolfan yn ganolbwynt i ddatblygiad ac integreiddiad y Gymraeg yn ein cymuned. Rydym yn gartref i sefydliadau eraill sydd yn darparu gwasanaethau Cymraeg ar draws y Sir, sef Urdd Gobaith Cymru, Dysgu Cymraeg Morgannwg, Mudiad Meithrin a'r Fenter Iaith. Mae gennym Siop Lyfrau, Caffi a gofod perfformio, sef Theatr Soar yn rhan o'r adeiladau. Mae'r Ganolfan yn adnodd pwysig i holl gymuned Merthyr Tudful gyda sefydliadau gwahanol yn llogi ystafelloedd ar gyfer cyrsiau, cyfarfodydd, gweithdai, clybiau, perfformiadau a chynadleddau.

2.0 **Amcanion**

Amcan y prosiect hwn yw i cryfhau ein sefydliad a chynyddu incwm trwy weithredu Cynllun Marchnata newydd Canolfan Soar a chreu Cynllun Strategol Cynyddu Incwm. Mae hyfforddi a chynorthwyo staff a chyfarwyddwyr y Fenter er mwyn datblygu ac ehangu'r strategaeth mewn modd cynaladwy yn ganolog i'r prosiect. Bydd angen paratoi cynllun hir dymor er mwyn sicrhau cynaladwyedd i'r dyfodol.

3.0 **Yr hyn sydd angen ei gyflenwi**

Byddwn yn cyllido unigolyn i ddadansoddi gweithrediad presennol y sefydliad er mwyn galluogi creu Cynllun Strategol Cynyddu Incwm cryf a fydd yn cael ei roi ar waith gan staff Canolfan Soar. Mae gofyn i'r unigolyn:

- Weithredu Cynllun Marchnata y sefydliad gan hyfforddi staff i'w gweithredu i'r dyfodol.
- Baratoi Cynllun Strategol Cynyddu Incwm sydd yn cynnwys cynllun codi arian, ac ystyried strwythur, cyfansoddiad a llywodraethant y corff.
- Baratoi cynllun i ddatblygu cwmni cyfieithu y Fenter, Lingo Soar er mwyn cynllunio ar gyfer cynyddu trosiant ariannol y cwmni.

4.0 **Rheoli Cyflenwi**

Bydd y prosiect yn cael ei reoli gan Brif Swyddog Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful. Bydd y Swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymgynghorydd yn cyrraedd cerrig milltir a thargedau a osodwyd ar gyfer y prosiect. Bydd yr ymgynghorydd yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd i'w cyflwyno yng Nghyfarfodydd Bwrdd Canolfan Soar.

5.0 **Tîm Prosiect**

Bydd y Tîm Prosiect yn cynnwys:

- Prif Swyddog Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful
- Cynrychiolydd o Bwrdd Cyfarwyddwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful
- Ymgynghorydd

6.0 **Amodau a Gweithdrefnau**

Y cleient ar gyfer y gwasanaeth hwn yw Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful. Caiff y gwasanaeth ei ariannu trwy Lywodraeth Cymru. Fe all y darparwr gwasanaeth gael cyngor is-gontractwyr fel y bo'n briodol. Bydd yr ymgynghorydd sy'n cyflawni'r gwasanaeth hwn yn gyfrifol am gydlynu, paratoi a chyflwyno adroddiadau i Brif Swyddog Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

7.0 **Graddfeydd Amser**

Yn union ar ôl cadarnhau penodiad yr ymgynghorydd, cynhelir cyfarfod y tîm prosiect i egluro'r cerrig milltir a thargedau y bydd angen i'r ymgynghorydd gwrdd â nhw.

Bydd yr ymgynghorydd a benodir yn cyflwyno adroddiad interim i Fwrdd Cyfarwyddwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful a bydd yn cynnwys adborth o'r ymchwil sydd wedi ei gynnal yn ogystal â barn a syniadau dechreuol ynghylch y Briff Datblygu.

Bydd yr ymgynghorydd a benodir yn cyflwyno adroddiad terfynol gydag argymhellion i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys fel lleiafswm y prif benawdau canlynol:

Cynllun Strategol ar gyfer Cynyddu Incwm

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Strwythur y sefydliad
4. Llywodraethant y sefydliad
5. Y Prosiect : Canolfan a Theatr Soar/Lingo Soar Cyf
6. Amcanion Codi Arian
7. Marchnadoedd i'w Targedu
8. Pwyntiau Gwerthu Unigryw
9. Cyllideb – sut i gwrdd â chostau rhoi'r strategaeth ar waith
10. Cynllun Gweithredu
11. Cynllun Gwerthuso – mesur effaith y Cynllun Gweithredu yn y tymor hir

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiadau terfynol yn foddhaol, bydd yr ymgynghorydd a benodir yn trosglwyddo'r holl ddefnydd sy'n ymwneud â'r comisiwn ar ffurf electronig (dyddiad i'w gadarnhau).

8.0 **Amserlen**

Maes Gwaith	**Dyddiad**
Dechrau'r Gweithdrefnau Caffael	20 Mai 2019
Derbyn Datganiadau o Ddiddordeb	10 Mehefin 2019
Y Broses Ddewis	14 Mehefin 2019
Cadarnhau'r Penodiad	17 Mehefin 2019
Cyfarfod Cyntaf	21 Mehefin 2019
Adroddiad Interim	23 Awst 2019
Adroddiad Terfynol	18 Hydref 2019
Trosglwyddo Defnydd	18 Hydref 2019

9.0 **Amodau'r Penodiad**

Annibyniaeth: Tra bydd Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn cadw gwasanaethau'r ymgynghorydd a benodir, rhaid iddo beidio â gweithredu ar ran unrhyw barti arall ble, trwy wneud hynny, y gall achosi gwrthdaro buddiannau gyda'i gyfrifoldebau i Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

Trefniadau Gweithio: Bydd gofyn i'r ymgynghorydd a benodir weithio'n annibynnol, ond ar y cyd â Phrif Swyddog Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, Staff Allweddol a, ble'n briodol, rhanddeiliaid eraill.

Ymgynghoriad: Lle'n briodol, bydd angen ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid eraill

Cadw Gwasanaethau: Bydd gwasanaethau'r ymgynghorydd a benodir yn cael eu cadw am gyfnod yr astudiaeth

Cyflwyniadau/Adroddiadau: Bydd angen cyflwyniadau/adroddiadau

Hawlfraint: Bydd hawlfraint yr holl ddefnydd a gynhyrchir dan y Comisiwn hwn yn eiddo i Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Indemniad: Ar ei benodiad, bydd yr ymgynghorydd yn rhoi i Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful fanylion sicrwydd yswiriant ar gyfer indemniad proffesiynol ac atebolrwydd cyhoeddus, a bydd yn sicrhau indemniad i Ganolfan a Menter y Gymraeg Merthyr Tudful yn erbyn unrhyw hawliadau'n codi o'r Cytundeb.

10. Ffioedd a Threuliau

Bydd y ffi ar gyfer darparu'r Gwasanaeth yn ddim mwy na £12,000 (yn cynnwys TAW) i'r Ymgynghorydd. Dewisir ar gyfer y comisiwn ar sail cyfuniad o ansawdd a phris.

Bydd y pris penodedig yn y Dyfynbris ar gyfer darparu'r Gwasanaethau yn cynnwys yr holl gostau.

Bydd y pris penodedig yn y Dyfynbris yn cynnwys (i) yr holl gostau i Ganolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful wrth ymgymryd â'r Briff e.e. llafur, teithio, cynhaliaeth, meddalwedd, mynychu cyfarfodydd, cyflwyniadau a (ii) chynhyrchu ac argraffu adroddiadau.

Nid ymgymerir ag unrhyw waith ychwanegol taladwy heb ymgynghori a derbyn caniatâd ymlaen llaw gan Ganolfan a Menter Iaith Gymraeg Merthyr Tudful.

Bydd yr holl daliadau yn unol â'r Cytundeb yn cael eu gwneud ar gwblhau camau penodol y gwaith yn foddhaol, fel y cytunir rhwng Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful a'r ymgynghorydd a benodir.

11. Cyflwyno Dyfynbris – Datganiad o Ddiddordeb

Rhaid i ddyfynbris am gytundeb fod yn ysgrifenedig trwy Ddatganiad o Ddiddordeb at y Prif Swyddog a dylid ei anfon at y cyfeiriad isod erbyn 10 Mehefin 2019

Lisbeth McLean
Menter Iaith Merthyr Tudful
Canolfan Soar
Pontmorlais
Merthyr Tudful
CF47 8UB
lis@merthyrtudful.com
01685 722176

Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol fel rhan o'r datganiad o ddiddordeb.

- Y ffi ar gyfer darparu'r Gwasanaethau, a bydd y ffi honno'n cynnwys yr holl gostau i Ganolfan a Menter y Gymraeg Merthyr Tudful wrth ymgymryd â'r gwaith e.e. llafur, teithio, cynhaliaeth, meddalwedd, mynychu cyfarfodydd, cyflwyniadau a chynhyrchu ac argraffu adroddiadau ("Pris y Cytundeb").

- Amlinelliad o arbenigedd perthnasol a phrofiad o ymgymryd ag aseiniadau tebyg

- Y rhaglen waith arfaethedig

- Cadarnhad bod y graddfeydd amser ar gyfer cwblhau Briff yr Aseiniad yn dderbyniol

- Geirda (gyda chyswllt personél) lle'r ymgymerwyd â gwaith tebyg

- Manylion sicrwydd yswiriant ar gyfer indemniad proffesiynol, atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogai

12. Cyflwyno Cynnig

Bydd penodiad yr ymgynghorydd llwyddiannus yn seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth i'w ddarparu, ac nid o anghenraid ar y ffi isaf a gynigiwyd.

Fe all y penodiad fod yn amodol ar gyfweliad, fel y mynno Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

Bydd cadarnhad o'r penodiad yn digwydd trwy gyfnewid gohebiaeth.